CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN TOWN COUNCIL

Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL330AB
Maer Cyng Nia Jones Dirprwy Faer Cyng Sharne-Marie Bellis

AGENDA Nos Fercher, Ionawr y 14eg, 2026
CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Microsoft Teams

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd
5. Estyn diolch i Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu Josh Jackson am ei gyfraniad i Lanfairfechan a dymuno'n dda iddo gyda'i yrfa yn Heddlu Gogledd Cymru
6. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Rhagfyr y 3ydd, 2025, a'r Rhestr Weithredu (DLlL1972 Atodlen 12)
7. Derbyn gwybodaeth am lunio datganiad cenhadaeth ar gyfer Cyngor Tref Llanfairfechan
8. Derbyn a chymeradwyo cais cyllideb ac archebiant 2026/27
9. Derbyn a chymeradwyo cynlluniau am gais cyllid allanol ar gyfer cyfarpar chwarae ychwanegol yn Llanfairfechan
10. Derbyn a chymeradwyo Adran 6 yr Adroddiad Bioamrywiaeth
11. Derbyn a chymeradwyo enwebiadau ar gyfer Parti Gardd y Palas
12. Derbyn gwybodaeth ynghylch Cyfethol ar gyfer Ward Pandy
13. Derbyn cais grant A137 gan Cyngor Ar Bopeth Conwy Gwynedd
14. Derbyn a chymeradwyo adroddiadau ariannol a'r taliadau cyfredol ar gyfer Ionawr y 14eg, 2025

Taliadau i'w cyflwyno
1. Cyflogau Ionawr 2026 y Staff £5000
2. Clwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan grant a137 £2000
3. Neuadd Gymunedol Llanfairfechan grant a19 £5000
4. Amazon Cerdyn Cyfarchion 3.68 / Pwynt Mynediad TG 109.88/
5. Tâl blynyddol am feddalwedd dylunio Canva £107.88
6. Delwedd tâl blynyddol am we-letya a chynnal a chadw £707.90
7. Worldcare skips 027513 £258.00
8. Andisa IT network box ANF-21931 gosod pwynt mynediad ychwanegol £118.80
9. Andisa IT network box ANF-21946 llafur a gwaith i sefydlu'r rhwydwaith £1020.00
10. G Roberts Sylfaen ar gyfer mainc Pendalar £560.00/ Ail-osod postyn arwydd llwybr £120.00/ cludo llusernau £50/ Cyflenwi a gosod pabïau i'r senotaff £100 = £830.00
11. Menter Iaith cyfieithiadau £151.00

15. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:
    - **Cyfeirnod Apeliadau Llywodraeth Cymru**: CAS-04497-C7C2W2, **Cyfeiriad Safle:** 11 Gorwel, Llanfairfechan, LL33 0DS, **Cyfeirnod Gwreiddiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:** 0/51286
16. Derbyn gohebiaeth
    - Heath – mater i'w ychwanegu i'r pecyn cyfarfod
    - Preswylydd yn holi pam mae'r maes parcio ger Ysgol Babanod bob amser yn llawn.
17. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau
18. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Nos Fercher, Ionawr y 14eg, 2026

CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Teams

COFNODION

Yn bresennol: Cadeirydd: Maer Nia Jones; Diprwy Faer Sharne-Marie Bellis; Cynghorydd Sir Cyng. Penny Andow; Cyng. Charlotte Davies; Cyng. Leena Farhat; Cyng. Andrew Hinchliff BEM. Cyng. Chris Jones; Cyng. Alun Rhys Jones; Cyng. Christine Roberts; Cyng. Preben Vangberg (ar-lein); Clerc y Dref: Jayne Neal

1. Croesawodd y Maer Nia Jones bawb i'r cyfarfod a chytunwyd i recordio'r cyfarfod er mwyn llunio'r cofnodion.

Penderfynwyd derbyn a nodi

2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12) Cyng. Rhys Griffiths. Nodwyd bod y ddwy Swydd Wag i fod yn Gynghorwyr Tref wedi'u rhannu ar hysbysfwrdd y Cyngor Tref yn y neuadd, ar y wefan ac ar y dudalen Facebook. Cytunwyd y bydd ymgyrch recriwtio yn y flwyddyn newydd gan ddefnyddio fideos a gwybodaeth am ein gwaith

Penderfynwyd derbyn a nodi

3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)

Datganwyd diddordebau personol gan y Cyng. A Hinchliff; Cyng. Chris Jones a'r Cyng. Christine Roberts ynghylch Eitem 6 gan eu bod nhw'n Gyfarwyddwyr ar ran Neuadd Gymunedol Llanfairfechan. Bu i'r Cyng. AR Jones a'r Cyng. N Jones ddatgan diddordeb personol fel aelodau cymunedol o bwyllgor Neuadd Gymunedol Llanfairfechan. Bu i'r Cyng. Christine Roberts; Cyng. Sharne-Marie Bellis; Cyng. Preben Vangberg ddatgan diddordebau personol fel aelodau o'r Pwyllgor Gefeillio Trefi. Nid yw'r rhain yn ddiddordebau rhagfarnus gan nad yw'r Cynghorwyr yn derbyn unrhyw elw ariannol ar gyfer y grantiau cymunedol hyn ac mae'r holl arian ar gyfer y grwpiau yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect cymunedol.

Penderfynwyd derbyn a nodi

4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol i glywed gwybodaeth am Gyfeirnod Apeliadau Llywodraeth Cymru: CAS-04497-C7C2W2 Gorwel. Cytunwyd i symud Eitem 15 i'w drafod yn gynharach ar yr agenda. Mae'r Cyngor Tref wedi ailgyflwyno'r datganiad cynllunio a nodwyd yn flaenorol a gellir gweld hyn ar wefan y Cyngor Tref.

Dydy safbwynt y Cyngor Tref ar y mater hwn heb newid, a bydd y datganiad yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r holl gynrychiolaethau eraill ar gyfer y panel apêl. Cytunwyd y dylid rhannu gwybodaeth am y dyddiadau apêl os bydd y Cyngor Tref yn eu derbyn. Nodwyd nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cynnwys hwn fel safle a ffefrir.

Penderfynwyd derbyn a nodi

5. Estyn diolch i'r Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu Josh Jackson am ei gyfraniad i Lanfairfechan a dymuno'n dda iddo gyda'i yrfa yn Heddlu Gogledd Cymru Mae'r Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu yn symud ymlaen i ymuno gyda Heddlu Gogledd Cymru fel swyddog heddlu. Cyflwynwyd cerdyn a siocled Heroes ac estynnwyd diolch iddo am ei holl waith yn Llanfairfechan. Soniodd Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu bod swyddog newydd wedi'i benodi ar gyfer Llanfairfechan, ond dydyn nhw ddim yn cychwyn tan Ebrill y 1af. O ganlyniad, bydd yn parhau i weithredu fel cyswllt Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer Llanfairfechan tan yr amser hwnnw.

Penderfynwyd derbyn a nodi

6.Derbyn a chymeradwyo cofnodion Rhagfyr y 3ydd, 2025, a'r Rhestr Weithredu (DLlL1972 Atodlen 12)

Cafodd y rhain eu nodi wedi eu darllen heb unrhyw faterion yn codi a rhoddwyd diweddariad ar y rhestr weithredu fel a ganlyn:

1. Mae'r blwch ffôn ym Mhendalar wedi'i meddiannu bellach a'r cynllun hirdymor yw symud y diffibriliwr i mewn iddo. Mae arwyddion yn hysbysu am y newid perchnogaeth. Adroddwyd nad yw CBS Conwy bellach yn ystyried Neuadd Pendalar ar gyfer tai a bu preswylwyr yn holi a ellir symud y diffibriliwr i'r blwch ffôn er hwylustod. Cytunwyd i symud y diffibriliwr cyn gynted â phosibl ac felly caiff hyn ei ychwanegu at agenda Chwefror y 25ain.

2. Mae'r Sgipiau Cymunedol wedi'u harchebu dros dro, a bydd y rhestr ddrafft ar gael yn y cyfarfod nesaf

3. Mae'r Adroddiad Archwilio Llawn 2024/25 bellach ar y wefan

4. Goleuadau yng Nghae Ffynnon – Clerc i ofyn am yr adroddiad cynnydd gan CBSC gan nad yw'r goleuadau hyn yn gweithio eto.

5. Mae'r blwch rhwydwaith wedi'i ddiweddaru a'i ail-ffurfweddu. Mae'r gwaith i ddiogelu'r system wedi'i gwblhau ac mae'n cydymffurfio â'r gofynion diogelwch data. Bydd angen diweddariadau pellach i'r system, ond mae'r datblygiad hwn wedi darparu sylfaen cadarn ar gyfer unrhyw waith yn y dyfodol.

6. Roedd bwffe'r Maer yn ddigwyddiad llwyddiannus dros ben gyda llawer o adborth cadarnhaol. Caiff rhagor o waith ei gwblhau'r flwyddyn nesaf i'w ehangu a sicrhau bod y broses yn rhwydd ac yn ddidrafferth. Gofynnwyd i'r gwobrau gael eu rhannu'n gyhoeddus yn y neuadd – tîm staff i weithredu hyn cyn gynted â phosibl. Yn dilyn trafodaeth, mae'n ymddangos fod marc cwestiwn ynghylch dyfodol gwefan y gymuned ac mae angen gwneud penderfyniadau am hyn gan ei fod yn gostus iawn. Caiff e-bost ei hanfon at Darganfod Llanfairfechan i dderbyn eu barn am hyn.

7. Roedd y digwyddiad Ffair Nadolig yn llwyddiant ysgubol gydag oddeutu 1150 yn bresennol. Cwestiynau am y ffair yn y dyfodol – caiff adroddiad ei gynhyrchu ar gyfer y cyfarfod nesaf, a bydd y mater hwn ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.
8. Gosod rhwyd tenis newydd yn yr Ardal Gemau Amlddefnydd gan nad yw'r system gyfredol yn addas i'r diben.
9. Mae'r e-bost Cynllun Datblygu Lleol newydd wedi'i derbyn ac mae'r holl ddogfennau ar gyfer yr ymgynghoriad blaendal ar-lein. Dyma fap o Lanfairfechan:



Mae map Cynllun Datblygu Lleol Newydd CBS Conwy yn dangos yr unig safle datblygu a ffefrir yng Nghaeffynnon mewn oren gyda'r ysgol newydd arfaethedig mewn porffor. Mae'r safle lliw mwstard ym Mharc Penmaenmawr yn safle piblinell ac nid yn un a ffefrir. Mae'r safle bach pinc yn ardal ddiwydiannol warchodedig yn Ffordd Llannerch na fydd yn cael ei ystyried ar gyfer tai.
Mae'r ymgynghoriad blaendal llawn ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy ar gael ar-lein. Bydd sesiwn yn Neuadd Gymunedol Llanfairfechan ar ddydd Mercher, Chwefror y 25ain o 10yb tan 7yh a bydd y tîm ar gael i drafod y broses ac ateb unrhyw ymholiadau. Cytunodd y Cyngor Tref i gysylltu gyda Darganfod Llanfairfechan i drafod cynnal sesiwn wybodaeth ar y cyd i breswylwyr cyn sesiwn CBS Conwy i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.
10 Mae'r postyn arwydd llwybr newydd wedi'i osod. Estynnwyd diolch i'r Cyng. Hinchliff BEM am gadw'r eitem yn ddiogel nes cafodd ei atgyweirio.
11 Mae'r Adroddiad Bioamrywiaeth wedi'i lunio a chaiff ei gadarnhau yn y cyfarfod nesaf.
<u>Cynigwyd gan y Cyng. C Davies Eiliwyd gan y Cyng. L Farhat Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi</u>
<u>7.Derbyn gwybodaeth am lunio datganiad cenhadaeth ar gyfer Cyngor Tref Llanfairfechan</u>
Cyflwynwyd datganiad drafft, a bydd ar yr agenda i'w fabwysiadu yn y cyfarfod ar Chwefror y 25ain.
<u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>
<u>8. Derbyn a chymeradwyo'r cais am gyllideb ac archebiant 2026/27</u>
Cafodd Dogfen Cynllunio Archebiant ei dosbarthu'n flaenorol ac fe'i nodwyd ei bod wedi'i darllen. Cafodd gwybodaeth am yr is-bwyllgor Cyllid a Staffio ei rhannu ac estynnwyd diolch i'r Clerc am yr adroddiad arddull newydd gan ei fod yn ddefnyddiol i helpu gyda gwneud penderfyniadau a rhannu ar y wefan er mwyn tryloywder. Bu i'r cyfarfod adrodd am eu trafodaethau a ganlyn:
1. <u>Trefniadau staffio</u> – oherwydd y bydd y clerc yn ymddeol maes o law, mae newidiadau wedi'u cynllunio ar gyfer 2026/27. Cytunwyd y dylid cychwyn ar y broses recriwtio ar gychwyn mis Awst a bydd un mis lle bydd y Clerc y Dref presennol yn cydweithio gyda'r Clerc y Dref newydd i helpu gyda throsglwyddo'r gwaith. Bydd costau ynghlwm â hyn, ond mae'n bwysig bod y broses trosglwyddo gwaith yn rhwydd. Cytunwyd hefyd y byddai'r cynorthwyydd gweinyddol dwyieithog yn cael ei ychwanegu at y gyllideb staffio i gadw'r lefel bresennol o fynediad rheng flaen.
<u>2. Bu newidiadau i godau meysydd cost yn barod ar gyfer gweithredu'r rhaglen cyfrifo Scribe.</u> Bydd y system yn fwy rhwydd, a bydd y potiau cyllideb yn haws i'w monitro.
<u>3. Roedd dau opsiwn archebiant wedi dod i'r amlwg o'r ymchwil yn dilyn cyfarfod mis Tachwedd</u> Mae opsiwn 1 yn cynnig ffigwr archebiant o £175,000 ac mae Opsiwn 2 yn cynnig ffigwr archebiant o £185,000. Mae gan y ddau

oblygiad ar gyfer y tâl Band D, ond cytunwyd ei fod yn bwysig dros ben cynnal y gwasanaeth lefel cyfredol felly mae'n rhaid cynyddu'r cais archebiant. Nodwyd mai un o'r prif ysgogwyr ar gyfer y cynnydd hwn yw'r nawdd sydd ar waith sy'n cynnal gwasanaethau CBS Conwy megis y pwll padlo, y llyfrgell gymunedol, y ddarpariaeth chwarae, y Teledu Cylch Cyfyng a thoiledau cyhoeddus. Bydd cyfanswm taliad y Cyngor Tref ar gyfer hyn yn 2026/27 ychydig o dan £26,000. Mae cynnydd o 7% i'w weld yn y cais eleni gan GBS Conwy ac nid oes unrhyw arwydd y bydd y ffigurau hyn yn lleihau yn y blynyddoedd sydd i ddod. Bu trafodaeth lawn am bwysigrwydd cynnydd archebiant cynyddol i fodloni'r heriau sydd ar y gorwel. Nodwyd y bu hyn yn broses effeithiol dros y blynyddoedd gan fod cronfeydd wrth gefn wedi aros yn oddeutu £70,000 ac mae hyn yn bodloni'r lefel a gynigir o hanner y ffigwr archebiant blynyddol. Nodwyd y bydd y cais archebiant o £175,000 yn golygu defnydd llai o'r gronfa wrth gefn disgwyliedig na'r llynedd a bydd hyn yn llai o faich ar breswylwyr ar gyfer 2026/27. Cafodd ffigurau'r Prosiect Meinciau eu rhannu a dangoswyd nad oedd cyllideb wrth gefn yn weddill yn y prosiect hwn. Bydd y prosiect ar yr agenda ar gyfer Chwefror y 25ain. Caiff strwythur symudol ei osod yn lle'r pyst tenis, a'r gobaith ydy y bydd hyn yn gwella'r prosesau yn yr Ardal Gemau Amlddefnydd. Bydd y Clerc yn adrodd yn ôl ac mae eu hangen ar gyfer y gwanwyn i gychwyn y tymor newydd. Cynigwyd gofyn am ffigwr archebiant o £175,000 a byddai hyn yn golygu cyfrifiad Band D o £115.54.

Cynigwyd gan y Cyng. P Vangberg Eiliwyd gan y Cyng. C. Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

9.Derbyn a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer cais am gyllid allanol ar gyfer cyfarpar chwarae ychwanegol yn Llanfairfechan

1. Derbyniwyd gohebiaeth gan gwmni sy'n gallu cydweithio gyda'r Cyngor Tref i ennill cyllid ar gyfer cyfarpar chwarae.

Gofynnwyd i'r Dirprwy Glerc ymchwilio'r cyfle ac adrodd yn ôl. Nodwyd mai'r cam cyntaf fyddai cysylltu gyda swyddogion chwarae CBS Conwy i wirio cymwysterau a chaniatâd. Gan edrych tua'r dyfodol, y cynllun fyddai ymgynghori gyda phreswylwyr i bennu lle fyddai'r lle gorau i osod y cyfarpar yn Llanfairfechan. Cytunwyd i ymchwilio'r cyfle ac adrodd yn ôl.

2. Nodwyd hefyd bod cyllid ar gael o bot tanwariant ac mae hyn wedi'i gynnig i'r Cyngor Tref ar gyfer gwresogyddion yn Ystafell Lloyd Hughes, ymestyn y digwyddiadau Paned a Sgwrs a digwyddiad Cymraeg ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi Sant. Y syniad yw cysylltu gydag Ysgol Babanod ac Ysgol Pant y Rhedyn. Cytunwyd y gellid datblygu hyn a chaiff ei weithredu ar y cyd â'r Maer.

Cynigwyd gan y Cyng. C Davies Eiliwyd gan y Cyng. C Roberts Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

AN OPPORTUNITY FOR YOUR VILLAGE TO GET FULLY FUNDED PLAY EQUIPMENT

Every small council (pop. under 4,000) has an opportunity to apply for lottery funding to improve their facilities.

But it may take a lot of time and effort to wade through the application process AND you may not be successful.

Let us guide you through the process, enabling your community to have a CLIMBING TRACK that they'll love.

Here's how...

1) Post this or something similar (along with the photo attached to the email) on any local Facebook pages that you have (or other social media sites).

'[Insert name of your council] wishes to improve its facilities by installing a Climbing Track onto [insert name of your park]. We need to generate as much community support for it as possible to help us to get the funding. Please like this post if it's something you and your family would like to use.'

10.Derbyn a chymeradwyo Adran 6 yr Adroddiad Bioamrywiaeth

Mae gofyniad cyfreithiol i adrodd ar y mater hwn, ac roedd adroddiad wedi'i ddosbarthu'n flaenorol a'i nodi ei fod wedi'i ddarllen. Estynnwyd diolch i'r Dirprwy Glerc am ei waith ar hwn, a chafodd y ddogfen ei chadarnhau gydag ambell i ychwanegiad bach:

- **Llain bioamrywiaeth Lle Caradog – y Cyngor Tref sy'n gofalu amdano ac nid yw CBS Conwy yn ei dorri**
- **Gardd ac ardal Fioamrywiaeth Ffordd yr Orsaf – wedi'i rheoli gan Bwyd Bendigedig a'r Cyngor Tref**

- **Ardal wyrdd Ffordd y Dyffryn – wedi'i rheoli gan breswylwyr lleol a'i gefnogi gan y Cyngor Tref yn ystod yr Wythnos Fawr Werdd**
- **Proses newydd o fonitro coed yn agosach – Pwyllgor Amgylcheddol y Cyngor Tref**
- **Adrodd am a chynnal y Ganolfan Codi Sbwriel yn Neuadd Gymunedol Llanfairfechan**
- **Gofynnwyd am ymrwymiad i ddefnyddio cynnyrch glanhau gwyrdd a bydd y tîm staff yn bwrw golwg ar hyn ar gyfer 2026/27**
- **Neuadd Gymunedol Llanfairfechan – amddiffyn y nythfa o ystlumod yng ngofod y to**

Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff BEM Eiliwyd gan y Cyng. C. Davies Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

11.Derbyn a chymeradwyo enwebiadau ar gyfer Parti Gardd y Palas

Cytunodd yr aelodau etholedig i enwebu Rena Griffith o Gangen Llanfairfechan, Aber a Bangor - Ymchwil Cancr Y GOGLEDD ORLLEWIN ar gyfer y tocyn loteri. Mae Rena a'i thîm o wirfoddolwyr wedi codi miloedd lawer o bunnoedd ar gyfer ymchwil cancr. Mae Ymchwil Cancr y Gogledd Orllewin yn ariannu ymchwil cancr ledled ystod o arbenigeddau. Maen nhw'n ariannu ymchwil ynghylch deall ac atal cancr sydd fwyaf pwysig ac arwyddocaol i anghenion pobl Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.

Cynigwyd gan y Cyng. P Andow Eiliwyd gan y Cyng. A Hinchliff BEM Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

12. Derbyn gwybodaeth am gyfethol ar gyfer Ward Pandy

Nodwyd bod dwy swydd ward cyfetholedig gwag yng Nghyngor Tref Llanfairfechan. Caiff rhagor o waith ei gyflawni i hysbysebu ein gwaith a pha mor bwysig ydy hi fod cynrychiolwyr etholedig yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Awgrymwyd dangos fideos byr o'r Cynghorwyr i arddangos ein gwaith a chaiff hyn ei ddatblygu dros y misoedd nesaf. Nodwyd y bydd etholiadau'r Cyngor Tref a Chymuned ym mis Mai 2027 ac mae'n bwysig dros ben bod Cyngor Tref llawn yn cael ei ddychwelyd ar yr adeg honno i alluogi Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol . Byddai hyn yn gyfle i achub ar gyfleoedd cyllid allanol newydd a mwy o rym i'r cyngor tref eirioli ar ran preswylwyr a datblygu prosiectau yn y dref. Penderfynwyd derbyn a nodi

13.Derbyn cais grant a137 gan Cyngor Ar Bopeth Conwy Gwynedd

Bu i ddau gynghorydd ddatgan y Cyng. A Jones fel gwirfoddolwr ar gyfer y Banc Bwyd, arhosodd yn yr ystafell heb wneud sylw. Cafodd y Cyng. P Andow ei ddatgan fel Cadeirydd y Banc Bwyd a gadawodd yr ystafell. Cafodd y cais hwn ei ddwyn i ystyriaeth ond ni chytunwyd arno. Bu i rai o'r aelodau godi pryderon ynghylch dyblygu posibl gyda'r gwaith effeithiol eisoes ar waith yn y Banc Bwyd ac asiantaethau partner eraill. Cyfanswm y pot ar gyfer cyllid grant a137 yw £10000 felly byddai'r cais hwn yn cyfateb i 27% o'n pot grantiau a137. Dywedodd yr aelodau etholedig bod angen mwy o dystiolaeth y byddai'r prosiect hwn yn ychwanegu gwerth ac yn canolbwyntio ar breswylwyr Llanfairfechan yn unig. Nodwyd hefyd bod sawl ffordd arall am ddim i fanteisio ar wybodaeth a chymorth ariannol, er enghraifft Advicelink Cymru ar 0800 702 2020 gyda'r ymgyrch Hawlia dy Arian – byddai'n ddefnyddiol gwybod sut mae'r gwasanaeth arfaethedig yn wahanol. Caiff e-bost ei hanfon i ofyn am yr wybodaeth hon. Penderfynwyd derbyn a nodi

14.Derbyn a chymeradwyo adroddiadau ariannol a'r taliadau cyfredol ar gyfer Ionawr y 14eg, 2025

Cafodd yr adroddiadau eu dosbarthu a'u cymeradwyo heb unrhyw faterion yn codi.

Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff BEM Eiliwyd gan y Cyng. C Roberts Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

15. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio

Anfonwyd cais hwyr gyda dyddiad cau o 4/02/2025 ac fe gytunodd y Cyngor Tref i'w ddwyn i ystyriaeth. 0/53125 Cais am Faterion a Gadwyd yn ôl y Gymdeithas Efengylaidd Ffordd y Felin, Llanfairfechan LL33 0TG. Mae'r aelodau etholedig yn cydnabod yr angen am dai llai ychwanegol yn Llanfairfechan. Edrychwyd ar y cynlluniau tai arfaethedig, a chroesawyd y cynllun adeiladu ar raddfa fach hwn o dai dwy ystafell wely ar safle mewnlenwi heb unrhyw sylwadau pellach. Penderfynwyd derbyn a nodi

16 Derbyn gohebiaeth

1. Derbyniwyd e-bost gan y Cyng. Mostyn Jones yn gofyn am ddyddiad cyfarfod ar gyfer perchennog newydd Yr Heath i drafod cynlluniau'r dyfodol ar gyfer yr adeilad. Soniwyd nad oes cynlluniau i ddymchwel yr adeilad cyfredol a byddai unrhyw gyfarfod i drafod opsiynau posibl ar gyfer y gymuned. Cadarnhawyd nad yw tai yn cael eu hystyried ar gyfer y safle hwn. Clerc i anfon gwahoddiad ar gyfer Chwefror a threfnu'r cyfarfod.

2. Maes Parcio'r Banc Soniodd breswylydd am bryder bod y maes parcio yn aml yn llawn. Nodwyd, o'i gymharu â threfi eraill o faint tebyg, fod cryn dipyn o leoedd parcio. Bu i'r Cyngor Tref weithio'n galed i newid Ffordd y Pentref a Ffordd yr Orsaf o 45 munud i ddwy awr, ac mae'n ymddangos fod hyn wedi diwallu anghenion y preswylwyr. Cytunwyd nad oes cyfiawnhad i fonitro defnydd maes parcio'r banc. Teimlwyd bod y Cyngor Tref

wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu gyda pharcio. Os yw preswylwyr yn anfodlon, bydd angen iddyn nhw roi gwybod i CBS Conwy.

17 Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau

1. Pwyllgor Cyfarwyddwyr Neuadd Gymunedol Llanfairfechan Derbyniwyd mwy o grantiau a bydd y prosiect ynni cynaliadwy yn mynd rhagddi, a bydd sgaffaldiau yn cael eu gosod yn fuan iawn i gyflawni gwaith atgyweirio'r to a landeri.

2.Grŵp Cynllunio Cymunedol Darganfod Llanfairfechan Mae cais grant Morfa Madryn wedi'i ohirio. Mae gwaith i ddatblygu'r Cynllun Lle a Chymuned ar waith a bydd hyn yn dwyn i ystyriaeth ymgynghoriad y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

3. Llywodraethwyr Ysgol Pant y Rhedyn Mae'r gyllideb yn iach ond wedi'i ledaenu'n sylweddol – mae'r Pennaeth am rannu ei amser 60% yn Ysgol Babanod a 40% yn Ysgol Pant y Rhedyn yn y flwyddyn ar droed. Mae'r Pennaeth wrthi'n cynnal trafodaethau gyda'r staff i weld a oes opsiynau ar gyfer lleihau oriau'n wirfoddol yn barod am y cyfnodau anoddach y flwyddyn nesaf.

4. Llywodraethwyr Ysgol Babanod Bydd gwirfoddolwyr o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a rhieni eraill yn peintio'r ystafelloedd dosbarth yn ystod yr hanner tymor

18 Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

1. Roedd y Gystadleuaeth Ffenestri Siop yn llwyddiannus dros ben a bu'r adborth yn ardderchog

2. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Cyngor Tref a'r tîm staffio yn ei gyfanrwydd ac i'r Maer a'r Dirprwy Faer am flwyddyn ardderchog. Nodwyd bod canmoliaeth barhaus am y lefel o waith caiff ei gyflawni.

3. Cwestiwn gan breswylydd ynghylch lloches fws ym Mhen Dalar. Mae hyn wedi'i drafod eisoes a gallai fod yn rhan o brosiect meinciau'r Cyngor Tref a gellir cyflwyno cais am gyllid allanol. I'w ddwyn i ystyriaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol o fewn cylch gwaith mwy'r Pwyllgor Amgylcheddol.

4. Mae'r ymgyrch Hawlia dy Arian yn digwydd ar hyn o bryd i sicrhau bod preswylwyr yn gwybod sut i hawlio eu budd-daliadau sy'n ddyledus. Mae hyn wedi'i gyflwyno ar y cyfryngau cymdeithasol ac mae'n cael ei rannu.

5. Mainc wedi torri ar y promenâd. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r harbwr feistr i wirio cyfrifoldeb.

6. Adroddiad am y gosodiadau ar gyfer y goleuadau Nadolig Mae cyfarfod gyda SETS LTD wedi'i drefnu a gellir adrodd amdano bryd hynny. Nodwyd bod y goleuadau eleni yn effeithiol ac mae rhagor o waith wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

7. Tipio anghyfreithlon ym Maes Parcio Ffordd yr Orsaf Mae hyn yn broblem barhaus, ac mae gwaith wedi'i gyflawni i geisio mynd i'r afael â'r broblem. Cafodd cryn dipyn o dipio anghyfreithlon ei gyflawni dros y Nadolig ac mae bellach wedi'i glirio. Mae teledu cylch cyfyng yn yr ardal ac mae'r Gwasanaethau Rheoleiddio yn ei ddefnyddio i ymchwilio'r sbwriel ac erlyn troseddwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:40yh